**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref qA1346892

Mr Dafydd Gruffydd
Rheolwr Gyfarwyddwr
Mentor Môn
Neuadd y Dref
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7RL

Drwy e-bost: dafydd@mentermon.com

10 o Ragfyr 2021

Annwyl Mr Gruffydd,

**DEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD 1992**
**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**
**RHEOLAU TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD (GWEITHDREFN CEISIADAU A GWRTHWYNEBIADAU (CYMRU A LLOEGR) 2006**
**CAIS AR GYFER GORCHYMYN PARTH ARDDANGOS ARFAETHEDIG MORLAIS A CHANIATÂD CYNLLUNIO TYBIEDIG**

1. Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arolygydd, Mr Clive Sproule BSc MSc MSc MRTPI MIENVSci CEnv, a gynhaliodd ymchwiliad cyhoeddus rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 12 Chwefror 2021, i'r cais a wnaed gan Menter Môn Morlais Cyfyngedig ("y ceisydd"), ar gyfer:

    a) Gorchymyn Parth Arddangos Morlais ("y Gorchymyn"), i'w wneud o dan adrannau 3 a 5 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992

    b) cyfarwyddyd o dan adran 90(2A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddarparu ar gyfer caniatâd cynllunio tybiedig yn y Gorchymyn ("y Cyfarwyddyd").

2. Byddai'r Gorchymyn a'r Cyfarwyddyd, pe baent yn cael eu gwneud, yn rhoi awdurdod i'r ceisydd adeiladu a gweithredu gorsaf cynhyrchu trydan ynni'r llanw ar y môr, wedi'i lleoli ym Môr Iwerddon i'r gorllewin o Ynys Gybi, Ynys Môn, ynghyd â cheblau allforio a seilwaith ar y tir i ddarparu cysylltiad grid arfaethedig i'r gorllewin o Gaergybi ar Ynys Môn. Byddai'r Gorchymyn hefyd yn awdurdodi'r broses o gaffael tir yn orfodol a'i ddefnyddio at ddibenion gwaith ar y tir a awdurdodir o dan y Gorchymyn, ac yn rhoi pwerau eraill mewn perthynas ag adeiladu a gweithredu'r gwaith.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Amgaeir copi o Adroddiad yr Arolygydd (“IR”) gyda'r llythyr hwn. Nodir casgliadau'r Arolygydd ym mharagraffau 754-1076, gydag argymhellion ym mharagraffau 1077-1080.

4. Mae'r Arolygydd yn argymell y dylai'r Gorchymyn fod yn ddarostyngedig i ddiwygiadau ac y dylai'r Cyfarwyddyd fod yn ddarostyngedig i amodau cynllunio.

**Llythyr Gweinidogion Cymru yn ‘dymuno’ cymeradwyo dyddiedig 22 Hydref 2021.**

5. Cyhoeddais lythyr ar 22 Hydref, a oedd yn cadarnhau fy mod yn cytuno â'r Arolygydd bod achos cymhellol dros wneud y Gorchymyn. Fodd bynnag, roedd hyn yn amodol ar y ceisydd yn mynd i'r afael â'r materion canlynol, y cyfeirir atynt hefyd yn argymhelliad yr Arolygydd yn IR 1077:

   (a) gan gynnwys y testun eglurhaol o ffigurau 4-1 i 4-5 ym Mhennod 4 Cyfrol II o Ddatganiad Amgylcheddol y ceisydd – Ffigurau (dogfen graidd cyf: MDZ/A28.1) ar y Cynllun Ardal Gyfyngedig (dogfen graidd cyf: MDZ/G13, cyf cynllun: MORMSDRW0001);

   (b) estyniad trionglog i'r “Ardal Gyfyngedig – Gogleddol” fel y'i diffinnir ar y Cynllun Ardal Gyfyngedig – nodir manylion yr estyniad trionglog (“Y Triongl”) yn Ffigur 5 ar dudalen 71 o Brawf Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, dogfen graidd cyf: POE021;

   (c) y testun eglurhaol ar gyfer yr “Ardal Gyfyngedig – Gogleddol” fel y'i diffinnir ar y Cynllun Ardal Gyfyngedig i'w newid i, “Dyfeisiau llanw tanddwr”.

6. Nodais hefyd fy mod yn dymuno diwygio erthygl 3(4) o'r Gorchymyn er mwyn sicrhau bod y diwygiadau a geisir i'r Cynllun Ardal Gyfyngedig yn cael eu sicrhau a'u rheoli gan y Gorchymyn.

7. Ystyriais y gallai'r diwygiadau hyn gynnwys newidiadau sylweddol i'r Gorchymyn, felly rhoddais gyfle i wneud sylwadau ar y materion hyn, fel sy'n ofynnol gan erthygl 13(4) o'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau oedd 12 Tachwedd 2021.

**Ymatebion i lythyr 22 Hydref**

8. Derbyniwyd sylwadau gan yr ymgeisydd, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (“ACLl”), Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyfeillion y Ddaear, Clwb Canŵio Eryri, Canŵ Cymru, Mr a Mrs Roberts, Mr a Mrs Llewellyn (gan gynnwys cyfeiriad at ddeiseb Change.org), Ms Saboor, Mr Kitchiner, Ms Hughes, a Ms Lloyd.

9. Nodir fy ystyriaeth o'r materion a godwyd yn yr ohebiaeth hon isod.

<u>Y Cynllun Ardal Gyfyngedig</u>

10. Mae'r ymgeisydd wedi darparu Cynllun Ardal Gyfyngedig ddiwygiedig, sy’n cynnwys Y Triongl, gan ddefnyddio'r allwedd ar y ffigur a ddangosir yn ffigur 4-5 o Gyfrol 4 Datganiad Amgylcheddol yr ymgeisydd, Pennod 4 - Ffigurau, y cyfeiriwyd atynt mewn perthynas â'r ardal gyfyngedig - gogleddol i ddatgan “Dyfeisiau llanw tanddwr”. Rwy'n fodlon bod y newidiadau hyn yn mynd i'r afael â'r gwelliannau a argymhellir gan yr Arolygydd. Rwyf hefyd yn fodlon y bydd y Cynllun Ardal Gyfyngedig diwygiedig yn lliniaru effaith y gwaith. Sylwaf fod y cynllun yn cynnwys testun troednodyn i egluro y gallai fod rhai elfennau sy'n codi o'r wyneb yn gysylltiedig â defnyddio dyfeisiau llanw

tanddwr fel y nodir yn y Datganiad Amgylcheddol a / neu fel sy'n ofynnol yn unol ag erthyglau 20 a 21 o'r Gorchymyn, sy'n ymwneud â goleuadau ar gweithfeydd llanw a diogelwch mordwyo, yn y drefn honno. Rwy'n fodlon â'r troednodyn eglurhad, sy’n nodi mae yna angen ar y Gorchymyn i gael asesiad risg mordwyo wedi'i ddiweddaru i'w gyflwyno a’i gymeradwyo cyn dechrau unrhyw waith llanw. Mae'r Gorchymyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Trinity House a'r Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau cyn cymeradwyo unrhyw asesiad risg mordwyo wedi'i ddiweddaru.

11. O ran y diwygiad arfaethedig i erthygl 3(4), rwy'n cydnabod y bydd cyflwyno'r Protocol Defnyddio Dyfais, a sicrhawyd trwy ddarpariaethau yn y Gorchymyn, ynghyd â'r Cynllun Ardal Gyfyngedig (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi lliniaru priodol ac rwy'n fodlon bod rheolaethau a ddarperir yn y Gorchymyn i sicrhau y bydd y prosiect yn dod o fewn paramedrau'r Datganiad Amgylcheddol. Yn y cyd-destun hwn, rwyf o'r farn nad oes angen y diwygiad arfaethedig i erthygl 3(4) a nodir yn y llythyr “dymuno i”, ac bydd y darpariaethau yn y Cynllun Ardal Gyfyngedig yn cael eu sicrhau gan y Gorchymyn ac rwy'n fodlon bod y darpariaethau yn y Gorchymyn yn darparu rheolaeth priodol dros y prosiect i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu o fewn paramedrau'r Datganiad Amgylcheddol. Sylwaf hefyd y byddai'r gwaith alltraeth yn ddarostyngedig i ofynion cymeradwyo o dan drwydded forol.

<u>Amodau</u>

12. Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno rhestr ddiwygiedig o amodau, y mae'n nodi eu bod wedi'u trafod a'u cytuno â'r ACLl a Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn wir, mae'r ACLl wedi cyflwyno'r un rhestr o amodau diwygiedig â'r ymgeisydd ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau ei fod wedi trafod yr amodau cynllunio arfaethedig gyda'r ymgeisydd a'r ACLl ac yn cytuno â'r diwygiadau a awgrymir i'r amodau iawndal tirwedd a chynefin. Ystyrir yr amodau cynllunio tybiedig yn fanwl ym mharagraff 117 o'r llythyr penderfyniad hwn.

<u>Materion Eraill</u>

13. Mae nifer o'r sylwadau yn codi materion yr aethpwyd i'r afael â nhw eisoes trwy'r broses ymchwilio. Sylwaf fod gwrthwynebiadau a phryderon heb eu datrys ynglŷn â’r datblygiad arfaethedig, fodd bynnag, rwy’n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried pob sylw a gwrthwynebiad a wnaed yn briodol i’r prosiect arfaethedig drwy’r broses ymchwilio a bod materion gwrthwynebiad yn cael sylw clir yn adroddiad yr Arolygydd. Rwyf wedi ystyried y sylwadau a wnaed gan bawb a enwir uchod. Rwy'n fodlon bod y pryderon a godwyd yn yr ohebiaeth honno yn faterion a godwyd gerbron yr Arolygydd.

14. Fel y nodwyd yn fy llythyr ar 22 Hydref, rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried effaith y prosiect yn llawn ar dwristiaeth, busnesau morol a hamdden ac rwy'n cytuno â'i resymu a'i gasgliadau ar y materion hyn.

15. O ran y fethodoleg a gynhigiwyd ar gyfer y ddiweddariad i’r asesiad risg mordwyo, nodaf fod nodyn canllaw Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau wedi'i ddiweddaru wedi'i gyhoeddi ac mae'r Gorchymyn wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at y canllawiau wedi'u diweddaru.

16. Bydd yr ACLl yn gyfrifol am gyflawni'r amodau cynllunio tybiedig ac am ymgynghori â chyrff perthnasol wrth gyflawni'r swyddogaeth hon fel y gwêl yn briodol.

17. Rwyf wedi ystyried y cynllun yn erbyn y Cynllun Ardal Gyfyngedig diwygiedig. Er cyflawnrwydd, nodais fy ystyriaethau llawn isod.

**Ystyriaethau Gweinidogion Cymru**

18. Rwyf wedi ystyried y dadleuon a gyflwynwyd gan bob parti, neu ar ei ran, yn ofalus. Nodir fy ystyriaeth o'r IR yn y paragraffau canlynol. Mae pob cyfeiriad arall at baragraffau, oni nodir fel arall, yn ymwneud â'r IR.

**Polisi a Chefndir Deddfwriaethol**

Polisi'r DU

19. Mae'r Arolygydd yn nodi'r ddeddfwriaeth a'r polisi perthnasol yn IR 758 i 794. O ran Polisi'r DU, mae'r Arolygydd yn nodi bod y ceisydd wedi tynnu sylw at Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol y DU. Fel y noda'r Arolygydd, ffocws y dogfennau hyn yw ceisiadau ar gyfer Gorchmynion Caniatâd Datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Gan mai cais o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 yw hwn a'i fod yn ymwneud â phrosiect cynhyrchu ynni datganoledig, nid wyf yn ystyried bod angen i'm penderfyniad ar y cais hwn ddibynnu ar y datganiadau hyn na chydymffurfio â nhw. Fodd bynnag, nodaf fod deddfwriaeth a pholisi Cymru hefyd yn cydnabod bod angen mwy o gapasiti i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Deddfwriaeth a Pholisi Cymru

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

20. Nodaf y ddyletswydd llesiant a osodwyd ar gyrff cyhoeddus gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") i gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy.

*Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

21. Er mwyn sicrhau bod Cymru yn cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 100% yn is na'r llinell sylfaen. O dan adran 6, rhoddir dyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus: 'Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol'.

22. Nodaf hefyd fod Gweinidogion Cymru wedi datgan argyfwng newid hinsawdd ym mis Ebrill 2019, ac wedi ymrwymo i sicrhau economi carbon isel a newid pendant i ffwrdd oddi wrth danwyddau ffosil.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

23. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ("WNMP") wedi'i baratoi a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ("MCAA"), a'i fod yn cydymffurfio â Datganiad Polisi Morol y DU ("MPS"). Mae'r MPS wedi'i fabwysiadu gan Weinidogion Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU. Yr MPS yw'r fframwaith ar gyfer paratoi Cynlluniau Morol a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol.

24. Mae'r Arolygydd yn nodi polisïau perthnasol WNMP yn IR 771-784.

25. Mae'r Arolygydd yn nodi'n gywir bod pob un o 13 o Amcanion y Cynllun yn Nhabl 1 o WNMP yn berthnasol i'r gwaith arfaethedig. Mae hefyd yn tynnu sylw at Amcan cyffredinol 1 sef “Hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru a chefnogi egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol trwy'r penderfyniadau a wneir a thrwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ddefnydd a wneir o'r amgylchedd morol”. Nodaf hefyd fod Amcan 3 yn cyfeirio'n benodol at ynni adnewyddadwy morol. Mae'n nodi y dylid “Cefnogi'r cyfle i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy morol yn gynaliadwy, gan gynnal y datblygiad iawn yn y lle iawn, gan helpu i gyflawni amcanion y DU ar gyfer diogelu ffynonellau ynni a lleihau carbon, gan roi ystyriaeth lawn i fuddiannau rhai eraill a chydnerthedd ecosystemau.”

26. Rwy'n cydnabod bod Polisi WNMP SOC_07 yn berthnasol i'r penderfyniad ar y cais mewn perthynas â'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd. Nodaf hefyd fod paragraff 133 o WNMP yn cydnabod ei bod yn debygol y gwelir newid parhaus yng nghymeriad morweddau Cymru, o ganlyniad yn bennaf i adeiladu rhagor o seilwaith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y môr, yn enwedig oddi ar arfordir Gogledd a De Cymru. Yn yr un modd, mae paragraff 340 o WNMP yn nodi, “Mewn perthynas â Pholisi SOC_07, derbynnir y bydd datblygu seilwaith ynni adnewyddadwy morol yn arwain at newidiadau i gymeriad morlun Cymru a bod y newidiadau hyn yn ganlyniad anochel i'n huchelgais i ynni adnewyddadwy o'r môr wneud cyfraniad cynyddol sylweddol at y cymysgedd ynni cyffredinol”.

27. Fel y noda'r Arolygydd, polisi sector penodol ar gyfer ynni ffrwd lanw yw Polisi ELC_03. Nodaf fod paragraff 344 o WNMP yn cyfeirio'n benodol at barthau arddangos ar gyfer ynni tonnau ac ynni ffrwd lanw. Mae'n cadarnhau, o dan Bolisïau EMC_02 ac ELC_03, y dylid hwyluso a chefnogi'r defnydd o barthau arddangos trwy ddefnyddio dull cydsynio sy'n seiliedig ar risg, gan ddefnyddio rheolaeth addasol lle mae hyn yn angenrheidiol ac yn briodol ar gyfer rheoli effeithiau sy'n anodd eu rhagweld adeg gwneud penderfyniadau yn unol â Pholisi SCI_01. Mae WNMP yn nodi bod y parth arddangos ffrwd lanw oddi ar orllewin Ynys Môn yn cynnig cyfle da i ddatblygwyr ddefnyddio, mireinio ac arddangos technolegau cyn ehangu prosiectau yn ardaloedd adnoddau ehangach ar raddfa fasnachol, yn amodol ar brofion llwyddiannus a'u derbynioldeb o ran effeithiau andwyol posibl.

28. Yn ogystal â'r pwyntiau uchod a'r polisïau WNMP a nodir yn yr IR, nodaf fod paragraff 341 o WNMP yn nodi, “Wrth benderfynu ar geisiadau i ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio roi pwys sylweddol ar dargedau Llywodraeth Cymru i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel”.

<u>Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040</u>

29. Cymru'r Dyfodol yw fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Yn unol ag Adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae Cymru'r Dyfodol yn rhan o'r cynllun datblygu. Mae WNMP wedi llywio'r gwaith o baratoi Cymru'r Dyfodol.

30. Mae'r Arolygydd yn nodi bod cyflwyno Cymru'r Dyfodol yn cadarnhau strategaeth y cynllun gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, datgarboneiddio a sicrhau hinsawdd gadarn, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau. Rwy’n nodi bod polisi 9 o Cymru’r Dyfodol yn nodi’r angen am gynigion datblygu i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Polisi 18 Cymru'r Dyfodol yn berthnasol i'r datblygiad arfaethedig, er nad yw'n fwriad i'r polisi gydnabod ei faint na'i gyd-destun deddfwriaethol. Rwy'n derbyn bod yr egwyddorion

ym Mholisi 18 yn berthnasol i'r cynnig, ond rwy'n cydnabod hefyd fod Polisi 18 yn ymwneud yn benodol â phenderfyniadau ynghylch ceisiadau ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel sydd o arwyddocâd cenedlaethol, sy'n geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

31. Mae Polisi 24 Cymru'r Dyfodol, "Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni", yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. O ran y datblygiad hwn, yn enwedig mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio tybiedig, nodaf fod Polisi 24 yn datgan yn benodol y caiff datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr eu cefnogi mewn egwyddor.

Polisi Cynllunio Cymru ("PCC")

32. Mae PCC yn nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd tir. Mae'r Arolygydd yn nodi bod PCC yn adlewyrchu themâu allweddol yn Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys newid hinsawdd, datgarboneiddio a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r Arolygydd hefyd yn nodi'r cymorth polisi yn PCC ar gyfer storio ynni, sy'n arbennig o berthnasol i'r datblygiad arfaethedig gan fod y gwaith arfaethedig yn cynnwys cyfleuster storio batri sy'n gysylltiedig â'r is-orsaf sy'n cysylltu â'r grid. Sylwaf fod PCC hefyd yn ailadrodd dyletswydd adran 6 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan gadarnhau bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

33. Nodaf, at ddibenion y cais hwn, mai'r Cynllun Datblygu Lleol perthnasol yw "Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026" ("JLDP"). Mae'r Arolygydd yn nodi bod yr ACLl wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl cyn yr ymchwiliad ac, yn ddarostyngedig i amodau cynllunio, nad oes unrhyw wrthdaro wedi'i nodi â pholisïau yn y JLDP.

Casgliadau'r Polisi

34. Rwy'n cytuno â'r Arolygydd bod y polisïau strategol presennol yn rhoi cefnogaeth gref i'r cynnig.

**Effeithiau Posibl ar Gymeriad a Golwg**

35. Nodaf fod yr Adolygiad o Gynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ("AHNE") Ynys Môn 2015-2020 yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o Ynys Gybi a'r gwaith arfaethedig ar y tir wedi'u lleoli o fewn yr AHNE ac mae'r Arolygydd wedi nodi rhinweddau arbennig yr AHNE. (IR 800-801)

Morwedd

36. Nodaf na fydd union ddyluniad na golwg dyfeisiau sy'n codi o'r wyneb ym Mharth Arddangos Morlais ("y Parth") yn hysbys nes y caiff y Cynllun Defnyddio Dyfais ("CDD") ar gyfer pob dyfais ei gyflwyno i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, byddai'r prosiect yn cyflwyno dyfeisiau a seilwaith llanw newydd i foroedd agored, ac rwy'n derbyn barn yr Arolygydd y byddai disgwyl i hyn gael effeithiau gweledol sylweddol ar yr AHNE, ac y byddai'n methu â chydymffurfio â'r weledigaeth ar gyfer dyfodol yr AHNE, fel y nodir yn yr Adolygiad o Gynllun Rheoli AHNE 2015-2020, sef cadw a gwella tirwedd/morwedd unigryw, harddwch naturiol a rhinweddau arbennig AHNE Ynys Môn. (IR 802-809)

Lliniaru Effeithiau ar y Morwedd

37. Nodaf fod y ceisydd wedi cynnwys mesurau lliniaru ymgorfforedig yn y cynllun er mwyn lliniaru effeithiau ar y morwedd. Mae'r mesurau lliniaru yn cynnwys dim dyfeisiau amlwg yn rhan ogleddol y Parth, gosod dyfeisiau amlwg o leiaf 1km oddi ar y tir, a sicrhau bod cyn lleied o elfennau sy'n arnofio â phosibl yn yr is-barthau.

38. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai'r mesurau lliniaru yn cael eu sicrhau drwy "Gynllun Ardal Gyfyngedig", a ddiffinnir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn. Mae'r Gorchymyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CDD gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn i unrhyw ddyfais llanw gael ei defnyddio.

39. Mae'r Arolygydd yn ystyried, pe bai Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn, y dylai'r Cynllun Ardal Gyfyngedig gael ei ddiwygio er mwyn egluro'r math o ddyfeisiau, o ran eu hamlygrwydd gweledol, a fyddai'n dderbyniol yn y Parth. (IR 810)

40. Ar y mater hwn, daw'r Arolygydd i'r casgliad nad oes amheuaeth y byddai'r gwaith yn cael effeithiau sylweddol ar y morwedd. Fodd bynnag, mae'r Arolygydd yn ystyried y gallai arwyddocâd posibl yr effeithiau hyn gael ei leihau drwy ddiwygio'r Cynllun Ardal Gyfyngedig. (IR 823)

**Tirwedd (IR 825-841)**

41. Mae'r Arolygydd yn nodi nad oes amheuaeth y byddai'r gwaith yn cael effaith sylweddol ar rai golygfeydd yn yr AHNE, gan gynnwys golygfeydd o'r môr, a rhinweddau arbennig yr AHNE. Maint a phwysau'r effaith o ran y cydbwysedd cyffredinol y mae rhai partïon yn dadlau yn eu cylch. (IR 825)

42. Mae'r Arolygydd yn ystyried mai'r rhannau mwyaf agored ac annatblygedig o'r Arfordir Treftadaeth yw'r rhai o amgylch Mynydd Twr i'r gogledd o Ynys Lawd. Felly, mae'r Arolygydd yn ystyried bod cryn bwysau o blaid diogelu ardal ogleddol y Parth rhag dyfeisiau a seilwaith ynni llanw amlwg. (IR 829)

43. O ran gwaith ar y tir, mae'r Arolygydd yn nodi y byddai'r elfennau gweladwy yn grynodedig. Fodd bynnag, er bod yr Arolygydd yn ystyried y byddai is-orsaf arfaethedig Ynys Lawd yn cael ei chymhathu i'r dirwedd, byddai strwythurau newydd sylweddol yn cael eu gosod ar dir fferm agored, a gallai'r gwaith gynnwys pibellau ceblau a thiwbiau-J ar y clogwyn ym Mae'r Henborth a drosto. Yn y cyd-destun hwn, byddai'r gwaith yn cynyddu'r canfyddiad o ddatblygiad yn y rhan hon o'r AHNE ac ni fyddai'n cadw nac yn gwella harddwch naturiol yr AHNE. (IR 830-835)

44. Mae'r Arolygydd hefyd wedi ystyried elfennau eraill y gwaith ar y tir ac mae'n fodlon y gellir defnyddio amodau i'w rheoli er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i'w cyd-destun. (IR 836)

45. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y ceisydd a'r ACLl wedi cytuno ar fesurau cydbwyso er mwyn mynd i'r afael â phryderon yr ACLl y gallai'r gwaith arfaethedig ar y tir fod yn anghydnaws â pholisïau JLDP. (IR 838)

46. Er gwaethaf y mesurau a nodir uchod, mae'r Arolygydd yn ystyried y byddai'r gwaith yn cael effeithiau andwyol sylweddol ar yr AHNE a'r morweddau y gellir eu gweld ohoni. (IR 839)

Casgliad yr Arolygydd ynghylch cymeriad a golwg mewn perthynas â'r effeithiau ar y dirwedd

47. Mae'r Arolygydd yn ystyried y byddai'r amodau cynllunio arfaethedig yn lliniaru effeithiau'r cynnig ar y dirwedd. Fodd bynnag, er gwaethaf y mesurau lliniaru ymgorfforedig, yr amodau cynllunio lliniarol, a rhwymedigaeth gynllunio ddisgwyliedig a fyddai'n gwella'r dirwedd, mae'r Arolygydd o'r farn y byddai'r gwaith yn cael effeithiau andwyol sylweddol ar yr AHNE, ei rhinweddau arbennig a'r rhan hon o'r Arfordir Treftadaeth. Er gwaethaf yr effaith hon, gyda'r mesurau lliniaru arfaethedig, mae'r Arolygydd yn fodlon na fyddai'r niwed yn annerbyniol ac felly na fyddai unrhyw wrthdaro â pholisïau JLDP AMG 1, AMG3 nac AMG4. (IR 840)

48. Nodaf fod y mesurau lliniaru arfaethedig yn cynnwys yr addasiadau y mae'r Arolygydd yn argymell y dylid eu gwneud i'r Cynllun Ardal Gyfyngedig.

Yr “Ardal Gyfyngedig – Gogleddol” / “Y Triongl”

49. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi achos dros ddiwygio ffigur 4-5 ym Mhennod 4 Cyfrol II o'r Datganiad Amgylcheddol, sy'n dangos ardaloedd cyfyngedig lle y cyfyngir ar y math o ddyfeisiau a ddefnyddir yn y Parth. Byddai'r diwygiad a geisir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau estyniad siâp triongl i'r “ardal gyfyngedig – gogleddol”, fel y'i diffinnir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y byddai'r estyniad trionglog hwn (“Y Triongl”) yn sicrhau bod dyfeisiau amlwg sy'n codi o'r wyneb yn cael eu lleoli ymhellach i ffwrdd oddi wrth y golygfeydd a welir o Ynys Lawd a'r cyffiniau.

50. Mae'r Arolygydd yn cydnabod bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos mai yn y Triongl y mae rhai o'r adnoddau ynni llanw gorau. Fodd bynnag, mae'r Arolygydd yn fodlon y gellid manteisio ar yr adnodd ynni llanw yn yr ardal o hyd drwy ddefnyddio dyfeisiau nad ydynt yn amlwg. Mae'r Arolygydd wedi'i argyhoeddi gan achos Cyfoeth Naturiol Cymru dros gynnwys Y Triongl. O ran y casgliadau cyffredinol ynghylch cymeriad a golwg, mae'r Arolygydd yn ystyried y dylai'r Cynllun Ardal Gyfyngedig, a ddiffinnir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn, gael ei addasu er mwyn cynnwys Y Triongl. Mae'r Arolygydd hefyd yn ystyried y dylid diwygio'r testun eglurhaol er mwyn egluro'r cyfyngiadau a fyddai'n gymwys yn y Parth. (IR 843)

51. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno dyfeisiau a seilwaith newydd mewn moroedd agored y byddai disgwyl iddynt gael effeithiau sylweddol ar yr AHNE drwy leihau ehangder y golygfeydd/morwedd i'r de a'r gorllewin o Ynys Lawd. Mae'r Arolygydd yn ystyried y byddai'r diwygiadau i'r Cynllun Ardal Gyfyngedig, yn ogystal â'r mesurau lliniaru arfaethedig eraill, yn golygu y byddai'r gwaith yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol yn y JLDP. (IR 847)

52. Rwy'n fodlon bod adroddiad yr Arolygydd yn ystyried y canllawiau perthnasol yn PCC, o ran yr angen i roi pwys mawr ar gadw a gwella harddwch naturiol AHNEau. Nodaf hefyd y ddyletswydd o dan adran 85(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i ystyried y diben o gadw a gwella harddwch naturiol AHNEau.

**Effeithiau Posibl ar yr Amgylchedd Hanesyddol**

53. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai mân effaith andwyol barhaol neu effaith andwyol barhaol gymedrol ar leoliad adeiladau rhestredig Gradd II a elwir yn 5284 Goleudy Ynys Lawd, 5713 Tŵr Elin, a 20081 Tan-y-Cytiau, yn ôl Cadw. Nodwyd y byddai mân effaith andwyol barhaol hefyd ar leoliad henebion cofrestredig yn AN011 Siambr Gladdu Trefignath, AN012 Maen Hir Tŷ Mawr, AN016 Grŵp Cytiau Mynydd Twr ac AN017 Meini Hir Penrhosfeilw. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw un o'r effeithiau hyn yn sylweddol yn ôl Cadw. (IR 848)

54. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y mân effeithiau andwyol neu'r effeithiau andwyol cymedrol ar leoliad yr asedau treftadaeth yn golygu na fyddai'r lleoliadau hyn yn cael eu cadw. Gellir disgwyl i'r effeithiau hyn barhau am hyd y prosiect. Fodd bynnag, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i'r Arolygydd i ddangos y byddai'r gwaith arfaethedig yn debygol o gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr asedau treftadaeth. (IR 849-852)

55. Rwy'n fodlon, yn y pen draw, na fydd arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol yr adeiladau rhestredig yn cael ei niweidio ac rwy'n fodlon ag ystyriaeth yr Arolygydd ynglŷn y mater hwn a'r casgliadau y daethpwyd iddynt. Rwyf hefyd yn fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried y fframwaith polisi perthnasol yn PCC a'r ddyletswydd statudol yn adran 66(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

**Effeithiau Posibl Materion Economaidd-gymdeithasol**

56. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl y cynnig, gan gynnwys amwynder hamdden ar y môr, twristiaeth a gweddill yr economi. Ar y mater hwn, daw'r Arolygydd i'r casgliad na ddangoswyd bod unrhyw effeithiau y mae'r gwaith yn debygol o'u cael ar dwristiaeth, busnesau morol nac amwynder hamdden yn annerbyniol, bod gwaith monitro a lliniaru wedi'i gynllunio, ac y gallai'r gwaith ychwanegu at y cynnig twristiaeth ar yr ynys. (IR 853-866) Rwy'n fodlon â'r casgliadau hyn.

**Sgiliau, cyflogaeth a diwydiannau newydd**

57. Rwy'n cytuno y byddai creu swyddi yn un o fanteision economaidd-gymdeithasol y gwaith arfaethedig. (IR 867-868)

**Datgarboneiddio er mwyn darparu cymysgedd ynni**

58. Cytunaf y byddai'r cynnig yn helpu i arallgyfeirio economi Ynys Môn, gyda manteision economaidd-gymdeithasol yn deillio o arallgyfeirio a datgarboneiddio'r cyflenwad ynni yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r manteision hyn yn cael eu cefnogi gan bolisïau WNMP, FW, PCC a pholisïau strategol yn y JLDP. (IR 869-871)

**Effeithiau Posibl ar Faterion Morol/Mordwyaeth**

<u>Cefnforeg</u>

59. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried effaith bosibl y gwaith ar gryfder a natur llifoedd llanw presennol wrth ddod i'r casgliad nad oes unrhyw dystiolaeth y byddai disgwyl i'r ffordd y caiff gwaddod ei drosglwyddo newid yn sylweddol yn sgil y gwaith arfaethedig. (IR 873-874)

<u>Mordwyaeth</u>

60. Nodaf fod Trinity House wedi tynnu ei wrthwynebiad i'r cynnig yn ôl cyn i'r ymchwiliad gael ei agor. (IR 876)

61. Wrth drafod effaith bosibl y cynllun ar fordwyaeth, mae'r Arolygydd yn nodi bod y Gorchymyn yn darparu ar gyfer cyflwyno CDD ac Asesiad wedi'i Ddiweddaru o'r Risg i Fordwyaeth ("UNRA"), fel y'u diffinnir yn y Gorchymyn, i Weinidogion Cymru cyn y caiff dyfeisiau llanw eu defnyddio. Cytunaf â'r Arolygydd y bydd darpariaethau yn y

Gorchymyn yn golygu y bydd modd rheoli effeithiau posibl y dyfeisiau a ddefnyddir ar gychod mordwyaeth. (IR 875-879)

<u>Yr Asesiad o'r Risg i Fordwyaeth ("NRA") a'r Atodiad iddo ("NRAA")</u>

62. Nodaf a derbyniaf nad oes gan yr Arolygydd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr wybodaeth arolygu a ddarparwyd yn yr NRS a'r NRAA yn anghydnaws â'r canllawiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelwch mordwyaeth. (IR 880-884)

<u>Lle i symud ar y môr ("searoom")</u>

63. Mae'r Arolygydd yn nodi nad oes cytundeb ynghylch faint o le sydd ei angen ar rai defnyddwyr yn y sianel ar y lan ddwyreiniol. Fodd bynnag, rwy'n cytuno bod y Gorchymyn, drwy gymeradwyo CDD cyn defnyddio dyfeisiau sy'n codi o'r wyneb, yn cynnig ffordd o reoli nifer y dyfeisiau sy'n codi o'r wyneb, eu lleoliadau a lled y sianel/y lle ar y môr o'u hamgylch. (IR 885-892)

<u>Trwyddedu Morol</u>

64. Rwy'n fodlon y byddai'r gwaith ar y môr yn ddarostyngedig i reolaethau trwydded forol o dan yr MCAA. (IR 893-895)

<u>Casgliadau ar faterion morol/mordwyaeth</u>

65. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai'r Parth yn cyflwyno gwaith a fyddai'n cynyddu'r risg i fordwyaeth. Fodd bynnag, mae'r Arolygydd yn nodi nad oes tystiolaeth, o ystyried natur y gwaith a'r effeithiau lliniaru y gellir eu disgwyl yn sgil y broses gymeradwyo o dan ofynion y drwydded forol a'r Gorchymyn, y byddai'r risgiau i ddiogelwch mordwyaeth yn annerbyniol o niweidiol i ddefnyddwyr y môr. (IR 896-897)

66. Mae'r Arolygydd yn cydnabod cais y Gymdeithas Hwylio Frenhinol i sicrhau mai dim ond yn y Parth y defnyddir dyfeisiau tanddwr. Fodd bynnag, mae'r Arolygydd yn fodlon â'r canfyddiad bod y risgiau posibl yn sgil presenoldeb dyfeisiau sy'n codi o'r wyneb yn dderbyniol a bod rheolaeth bellach yn cael ei darparu gan y broses CDD. (IR 898)

67. Derbyniaf gasgliadau'r Arolygydd ar y mater hwn.

**Bioamrywiaeth**

<u>Cynefinoedd benthig a rhynglanwol</u>

68. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried y mater hwn a nodaf fod y Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Forol Amlinellol ("OMBES") wedi'i chytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru ac na fyddai'r effaith ar ecoleg fenthig yn rheswm dros wrthod y cais. (IR 899-904)

<u>Mamaliaid morol</u>

69. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai'r Parth wedi'i leoli o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Gogledd Ynys Môn, sydd wedi'i dynodi ar gyfer diogelu llamhidyddion harbwr. Nodaf y gallai'r gwaith arfaethedig effeithio ar y rhywogaeth hon, a restrir yn Atodiad II a IV o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC), a mamaliaid morol eraill. Nodaf yr amcanion cadwraeth ar gyfer yr ACA, fel y'u crynhoir yn yr IR. (IR 905)

70. O ran yr amcanion cadwraeth ar gyfer yr ACA, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn pryderu y gallai mamaliaid morol wrthdaro â'r gwaith. Roedd hefyd yn pryderu am yr aflonyddwch a fyddai'n cael ei achosi gan sŵn o dan y dŵr. (IR 906)

*Sŵn*

71. Yn dilyn diwygiadau i'r Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol Amlinellol ("OEMMP"), cafodd yr Arolygydd ei gynghori gan Cyfoeth Naturiol Cymru y gellid diystyru effaith andwyol ar uniondeb y safle oherwydd sŵn o dan y dŵr ar y cam hwn. Nid oes gan yr Arolygydd unrhyw reswm dros anghytuno â chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. (IR 907-908)

*Y Risg o Wrthdrawiad*

72. Er i Cyfoeth Naturiol Cymru nodi y bydd angen rhagor o fanylion pan gaiff y Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol ("EMMP") ei gyflwyno i'w gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith llanwol, noda'r Arolygydd fod y sefydliad wedi cadarnhau y bydd atgyfnerthu'r cynigion rheoli addasol yn yr OEMMP yn sicrhau na fydd effaith andwyol ar uniondeb yr ACA yn sgil mamaliaid morol yn gwrthdaro â'r gwaith. Nid oes gan yr Arolygydd unrhyw reswm dros feddwl yn wahanol. (IR 909-912)

73. Rwy'n fodlon â chasgliadau'r Arolygydd o ran mamaliaid morol.

**<u>Pysgod</u>**

74. Nodaf fod pryderon ynghylch effeithiau posibl sŵn o dan y dŵr ar bysgod a'u symudiadau wedi'u lleddfu. (IR 913)

**<u>Adareg</u>**

75. Mae'r Arolygydd yn nodi mai prif bryder y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ("RSPB") yw effaith bosibl y gwaith ar boblogaethau o wylogod a llursod Ynys Lawd a Phenlas. Er nad yw'r naill rywogaeth na'r llall yn un o nodweddion o ddiddordeb Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ("SoDdGA") Ynys Gybi, maent yn rhan o'r nythfa o adar môr sy'n magu sy'n cyfrannu at y SoDdGA ac felly dylent gael eu cynnal. Fel adar gwyllt, caiff y poblogaethau o wylogod a llursod eu diogelu o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. (IR 914-916)

76. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y partïon yn cytuno na fyddai'r gwaith arfaethedig ar Gam Un yn cael effaith sylweddol ar y poblogaethau o wylogod a llursod. (IR 917)

77. Nodaf fod yr RSPB yn gwrthwynebu maint y prosiect arfaethedig gan mai dim ond megis dechrau mae technoleg llanw ac mae diffyg data empeiraidd cyfatebol i lywio a/neu ddilysu'r asesiad o'r rhyngweithiadau tebygol ag adar sy'n plymio, a'r effeithiau arnynt. Noda hefyd mai megis dechrau mae'r gwaith o asesu'r risg o wrthdaro. Mae ei wrthwynebiad hefyd yn ymwneud â maint yr effeithiau posibl ar boblogaethau o adar yn sgil senario 240MW fel y'i haseswyd ac yr adroddwyd arno yn y Datganiad Amgylcheddol – er bod yr RSPB yn cydnabod ac yn derbyn nad yw'r effeithiau sylweddol hynny a nodwyd yn ystyried y camau lliniaru a gynigir drwy ymgymryd â'r gwaith yn raddol a thrwy'r EMMP. Ymhlith y pwyntiau gwrthwynebu eraill mae diffyg manylion ar bob cam, y ddibyniaeth ar waith monitro, rheoli a/neu liniaru, a'r graddau y caiff y cyfryw faterion eu penderfynu yn ddiweddarach drwy system gydsynio ar wahân. (IR 531, 918-919)

78. Yn ôl yr RSPB, mae ansicrwydd ynglŷn â'r prosiect yn golygu bod y datblygiad yn rhy fawr a'r effeithiau posibl yn rhy sylweddol. Mae'n ystyried y byddai cynllun llai o faint yn caniatáu i'r dulliau technoleg, monitro a lliniaru gael eu hasesu cyn mynd ati i geisio cydsyniad ar gyfer prosiect mwy o faint. Mae'r RSPB hefyd yn cwestiynu a fyddai'r prosiect yn cael ei ddatblygu y tu hwnt i'w gam cyntaf dangosol a ph'un a all y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ddod i benderfyniad ar sail gwybodaeth briodol ynghylch a fyddai'r manteision cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn gwrthbwyso effeithiau andwyol neu effeithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect. (IR 532-534)

79. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried yr holl faterion a godwyd gan yr RSPB. Nodaf mai megis dechrau mae'r defnydd o dechnoleg llanw. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y dull graddol o roi'r prosiect ar waith, a fyddai'n galluogi'r cynllun i gynyddu capasiti cynhyrchu wrth i'r dechnoleg a mesurau lliniaru a monitro cysylltiedig gael eu profi i fod yn briodol ac yn effeithiol. (IR 920)

80. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried materion sy'n gysylltiedig â gwaith asesu a modelu ac wedi mynd i'r afael â nhw. Nodaf hefyd na fyddai'r defnydd arfaethedig ar Gam Un yn cael effaith sylweddol ar boblogaethau o wylogod a llursod, yn ôl yr RSPB. Cytunaf y byddai addasrwydd unrhyw ddefnydd pellach yn cael ei ystyried yn ei rinwedd ei hun gan yr EMMP. (IR 922)

81. Rwy'n fodlon â'r Amlen Dylunio Prosiect (“PDE”) neu ddull Amlen Rochdale o fynd i'r afael â'r prosiect, a'r broses raddol o'i gyflwyno, fel y'i rheolir gan ddarpariaethau yn y Gorchymyn. (IR 930-932) Nodaf y caiff y prosiect ei gyfyngu gan y paramedrau a diffinnir yn y Gorchymyn.

82. O ran gwaith monitro a'r EMMP, o ystyried natur y prosiect, rwy'n fodlon â'r dull monitro a rheoli addasol, a nodaf fod y defnydd o ddulliau rheoli addasol mewn parthau arddangos yn cael ei gefnogi gan yr WNMP. Nid oes gennyf unrhyw reswm dros anghytuno â barn yr Arolygydd, sef nad yw'r heriau monitro yn debygol o fod yn anorchfygol. (IR 933-939)

83. Derbyniaf fod y dull graddol o gyflwyno'r prosiect, a dulliau monitro a rheoli addasol mewn PDE, yn golygu bod rhai bylchau o ran data yn ymwneud â'r defnydd o ddyfeisiau ar gamau penodol. Fodd bynnag, cytunaf fod y cais yn cael ei gefnogi gan wybodaeth eang am effeithiau amgylcheddol posibl y gwaith, ac mai'r manylion sydd heb gael eu darparu eto yw'r rhai na fyddai disgwyliad iddynt yn rhesymol gael eu darparu eto mewn cynnig o'r fath. Rwy'n fodlon bod y dull PDE wedi asesu'r paramedrau amgylcheddol achos gwaethaf a bod digon o wybodaeth amgylcheddol wedi'i rhoi i ddod i benderfyniad am y prosiect ar sail gwybodaeth. (IR 940-945)

84. Derbyniaf gasgliadau'r Arolygydd ar y mater hwn ac rwy'n fodlon y bydd darpariaethau yn y Gorchymyn yn rheoli'r prosiect drwy fesurau lliniaru a gwiriadau er mwyn sicrhau mai dim ond pan fyddai'n briodol gwneud hynny y byddai'r broses o gynhyrchu pŵer yn cael ei hehangu. (IR 946-949)

**<u>Ecoleg Ddaearol</u>**

85. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Ardal Gwarchodaeth Arbennig (“AGA”) Glannau Ynys Gybi a'r SoDdGA yn cynnwys tir lle byddai'r ceblau allforio yn cyrraedd y tir pe na bai modd defnyddio Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (“DCLl”). Byddai llwybr uwchlaw'r tir (dros y clogwyn) ar gyfer pob un o'r naw cebl allforio neu rai ohonynt, yr opsiwn wrth gefn, yn peri i'r ceblau allforio groesi cynefin clogwyn â llystyfiant Atodiad I o fewn y dynodiad ACA. (IR 950)

86. Mae'r Arolygydd yn derbyn barn Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'r opsiwn wrth gefn yn cael effaith andwyol ar uniondeb ACA Arfordir Ynys Gybi at ddibenion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ("Rheoliadau Cynefinoedd"). Gan y byddai effaith andwyol ar uniondeb y safle ("AEOSI"), ystyrir a oes cydymffurfiaeth â rheoliad 64 o'r Rheoliadau Cynefinoedd. (IR 951-973)

87. Mae'r Arolygydd yn fodlon bod gofynion rheoliad 64(1) wedi'u bodloni a bod rhesymau hollbwysig dros ganiatáu i'r prosiect fynd rhagddo o ran budd cyhoeddus. Mae'r Arolygydd hefyd yn fodlon nad oes unrhyw atebion amgen i'r opsiwn wrth gefn, sef bod y ceblau yn croesi'r clogwyn. (IR 974-975)

88. Mae'r Arolygydd yn nodi bod mesurau cydbwyso yn ofynnol, o dan reoliad 68, ar gyfer achosion lle y cytunir ar brosiect er gwaethaf effaith andwyol ar uniondeb y safle. Er na chafodd ei gyflwyno i'r ymchwiliad at y diben hwn, mae'r Arolygydd yn nodi bod y ceisydd wedi cadarnhau, ar ôl canfod y byddai effaith andwyol ar uniondeb y safle, y caiff y Cynllun Gwella Cynefinoedd Amlinellol ei ystyried yn gydbwyso angenrheidiol at ddibenion rheoliad 68. Mae'r Arolygydd yn fodlon â'r sefyllfa hon ac mae'n nodi y byddai'r mesurau cydbwyso yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio. (IR 976)

89. Rwyf yn fodlon y mae dyletswydd Llywodraeth Cymru o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wedi cael sylw.

**Asesiad Priodol**

90. Mae Atodiad 3 o'r IR yn rhoi crynodeb o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad Priodol.

91. O ran gwaith ar y môr, byddai'r Parth wedi'i leoli o fewn ACA Forol Gogledd Môn. O ganlyniad, gallai'r gwaith arfaethedig gael effaith ar lamhidyddion harbwr (phocoena phocoena), a restrir yn Atodiad II ac Atodiad IV o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a mamaliaid morol eraill. Mae'r Arolygydd yn fodlon â'r canfyddiad na fyddai sŵn na'r risg o wrthdaro yn debygol o arwain at effaith andwyol ar uniondeb y safle mewn perthynas ag ACA Forol Gogledd Môn. (IR Atodiad 3, para. 21-22)

92. O ran AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli ac AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro, ni fyddai unrhyw effaith ar boblogaethau o balod Manaw. (IR Atodiad 3, para. 23)

93. O ran gwaith ar y tir, gyda chyfeiriad at AGA Glannau Ynys Gybi, mae'r Arolygydd yn nodi y dangoswyd na fyddai unrhyw effaith bosibl ar frain coesgoch yn sylweddol. (IR Atodiad 3, para. 24)

94. Mae'r Asesiad Priodol yn nodi na fyddai disgwyl i'r gwaith arfaethedig ar y tir gael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar safle gwarchodedig, gan ddefnyddio DCLl i ddod â'r ceblau allforio i'r lan i is-orsaf Ynys Lawd. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn wrth gefn a fyddai'n golygu cyfeirio'r ceblau allforio dros wyneb y clogwyn yn cael effeithiau uniongyrchol ar AGA/ACA Glannau Ynys Gybi. Yna mae'r Asesiad Priodol yn mynd i'r afael â'r effaith andwyol ar uniondeb y safle a gofynion rheoliadau 64 a 68 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. (IR Atodiad 3, para. 26-33)

95. Mae'r Asesiad Priodol wedi bod yn destun ymgynghoriad ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru o dan reoliad 63(3) o'r Rheoliadau Cynefinoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi ei fod yn fodlon â'r crynodeb o'r Asesiad Priodol, yn amodol ar sylwadau manwl.

96. O ran effaith y cynnig ar famaliaid morol ac ACAau cysylltiedig, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi nad yw'r Asesiad Priodol yn cyfeirio at effeithiau cronnol, effeithiau cyfunol nac effeithiau sy'n peri rhwystr. Fodd bynnag, yn ei ddatganiad cloi yn ystod yr ymchwiliad, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth ystyried yr effeithiau posibl ar famaliaid morol sy'n nodweddion ACAau yng Nghymru (drwy aflonyddwch sŵn o dan y dŵr a/neu effeithiau sy'n peri rhwystr), ei fod yn gallu cynghori'r sawl sy'n gwneud penderfyniad na fyddai unrhyw effaith andwyol o'r fath. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod y casgliad hwn yn seiliedig ar yr ymrwymiadau a roddwyd yn yr EMMP Amlinellol.

97. O ran adareg forol ac AGAau cysylltiedig, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon â chasgliadau'r Asesiad Priodol o ran adareg forol. Mae'n nodi nad yw AGA Ynys Gwales wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Priodol. Fodd bynnag, mae'n fodlon na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar y safle. Derbyniaf sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru, o ran AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli ac AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro, na fyddai unrhyw effaith andwyol ar boblogaethau o balod Manaw, yn hytrach na dim effaith o gwbl.

98. Cytunaf â'r Arolygydd y byddai'r opsiwn wrth gefn o ran cyfeirio'r ceblau dros gynefin clogwyn â llystyfiant ACA Arfordir Ynys Gybi yn cael effaith andwyol ar uniondeb y safle, hyd yn oed gan ystyried mesurau lliniaru. Fodd bynnag, rwy'n fodlon, yn unol â rheoliad 64(1) o'r Rheoliadau Cynefinoedd, nad oes unrhyw atebion amgen a bod yn rhaid i'r prosiect fynd rhagddo am resymau hollbwysig yn ymwneud â budd cyhoeddus ("IROPI").

99. Mae'r Arolygydd yn ystyried dewisiadau amgen i'r opsiwn wrth gefn yn IR 974. Rwyf wedi ystyried y cyflwyniadau y manylir arnynt yn IR 974 ac IR 166 ac rwy'n fodlon nad oes unrhyw atebion amgen dichonadwy a fyddai'n achosi llai o ddifrod neu'n osgoi difrod i'r safle.

100. O ran a yw'r gwaith yn cael ei gefnogi gan IROPI, rwy'n argyhoeddedig bod y rhesymau yn hollbwysig, er budd y cyhoedd ac yn drech na'r risg o niwed i uniondeb AGA Ynys Gybi, fel y nodir yn yr Asesiad Priodol. Mae Cymru yn wynebu argyfwng hinsawdd; mae angen sicrhau economi carbon isel a newid pendant i ffwrdd oddi wrth danwydd ffosil. Byddai'r Parth yn helpu i ddatblygu sector ynni ffrwd lanw a fyddai'n cynnig ffynhonnell ychwanegol o ynni dibynadwy, rhagweladwy ac adnewyddadwy, ac yn helpu i ddatgarboneiddio'r sector ynni ar yr un pryd. Mae WNMP yn cefnogi'r defnydd o barthau arddangos ac mae'n nodi y bydd y parth arddangos ffrwd lanw oddi ar orllewin Ynys Môn yn cynnig cyfle da i ddatblygwyr ddefnyddio, mireinio ac arddangos technolegau cyn ehangu prosiectau yn ardaloedd adnoddau ehangach ar raddfa fasnachol. Byddai'r prosiect yn sicrhau buddiannau cyhoeddus hirdymor sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ardal leol. Ystyriaf fod y rhesymau uchod a'r rhai a amlinellir gan yr Arolygydd yn IR 975 yn dangos IROPI at ddibenion rheoliad 64(1) o'r Rheoliadau Cynefinoedd.

101. Rwy'n fodlon bod gofynion rheoliad 64(1) yn cael eu bodloni.

102. Pan gytunir bod prosiect yn cydymffurfio â rheoliad 64 er gwaethaf asesiad negyddol o'r goblygiadau ar gyfer safle Ewropeaidd, mae rheoliad 68 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol roi unrhyw fesurau digolledu ar waith er mwyn sicrhau bod cydlyniaeth gyffredinol y rhwydwaith safleoedd cenedlaethol yn cael ei diogelu. Yn yr achos hwn, yr awdurdod priodol yw Gweinidogion Cymru.

103. O ran rheoliad 68, mae'r Arolygydd yn nodi, ar ôl canfod AEOSI, fod y ceisydd wedi cadarnhau y caiff mesurau a nodir yn y Cynllun Gwella Cynefinoedd Amlinellol

("OHEP") eu hystyried yn gydbwyso angenrheidiol at ddibenion rheoliad 68. Mae'r Arolygydd yn nodi bod y mesurau yn yr OHEP wedi'u cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau ei fod o'r farn bod y mesurau cydbwyso a amlinellir yn y ddogfen yn "angenrheidiol" at ddibenion rheoliad 68.

104. Bydd angen i fesurau cydbwyso manwl yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn yr OHEP gael eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo ganddo cyn y gall unrhyw waith datblygu fynd rhagddo. Byddai'r mesurau cydbwyso manwl yn cael eu sicrhau drwy amod cynllunio, fel y'i hargymhellir gan yr Arolygydd. Byddai'r ACLl yn gyfrifol am orfodi'r mesurau cydbwyso. Byddai angen rhoi'r mesurau cydbwyso ar waith o fewn y terfynau amser a gytunir â'r ACLl.

105. Rwy'n fodlon bod y mesurau cydbwyso a nodir yn yr OHEP, a fyddai'n cael eu sicrhau drwy amod cynllunio, yn bodloni gofynion rheoliad 68 o'r Rheoliadau Cynefinoedd.

106. Yn amodol ar y sylwadau uchod gan Cyfoeth Naturiol Cymru, rwy'n derbyn ac yn mabwysiadu canfyddiadau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd/Asesiad Priodol cryno yr Arolygydd ac rwy'n fodlon bod gofynion perthnasol y Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u bodloni.

**<u>Materion Eraill</u>**

107. Rwy'n fodlon y gall effeithiau'r gwaith ar draffig, trafnidiaeth a theithio, sŵn gwaith adeiladu, unrhyw faterion posibl yn ymwneud â thir halogedig, ac unrhyw effaith ar ansawdd aer, gael eu rheoli drwy amod cynllunio. (IR 979-981, 983).

108. Rwy'n fodlon nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol wedi'u nodi mewn perthynas ag ymbelydredd electromagnetig. (IR 984)

**Ansawdd Dŵr a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ("WFD")**

109. Nodaf fod yr Atodiad i Asesiad Cydymffurfio WFD y ceisydd yn dod i'r casgliad, er bod effeithiau yn cael eu rhagweld o ran dangosyddion allweddol statws corff dŵr WFD ar gyfer corff dŵr Gogledd Bae Caernarfon, fod y rhain yn fach o ran maint a maint gofodol ac nad ydynt yn peri risg o ddirywiad i statws "Da" y corff dŵr hwn. Nodaf hefyd fod Datganiad Tir Cyffredin y ceisydd ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno bod y risg o ran effeithiau'r prosiect arfaethedig ar dderbynyddion WFD wedi'i hasesu yn unol â gofynion WFD. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cytuno â'r casgliad na fydd y cynnig yn arwain at ddirywiad o ran statws unrhyw gorff dŵr WFD, nac yn atal unrhyw gorff dŵr rhag cyflawni'r targedau a bennwyd o dan WFD. (IR 982)

110. Rwy'n fodlon bod Gweinidogion Cymru wedi cyflawni eu dyletswyddau o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion WFD.

**Cyllid a Hyfywedd Ariannol**

111. Derbyniaf ganfyddiadau'r Arolygydd bod manylion cyllid wedi'u darparu gan y ceisydd ac, er y byddai disgwyl i benderfyniadau cyllid terfynol gael eu gwneud ar ôl gwneud y Gorchymyn, mae'n debygol iawn y byddai cyllid yn parhau i fod ar gael ar gyfer y cynllun, ac y byddai'r cyllid hwnnw'n ddigonol i gyflawni'r prosiect a chaffael y tir a'r hawliau a geisir. (IR 985-986, IR 1038-1040)

**Dewisiadau amgen**

112. Nodaf yr ymdrinnir â'r mater hwn wrth ystyried materion sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, rwy'n fodlon bod y ceisydd wedi mynd i'r afael â dewisiadau amgen yn foddhaol mewn perthynas â Rheoliad 64 o'r Rheoliadau Cynefinoedd. (IR 987-988)

**Ymgynghori a digonolrwydd y Datganiad Amgylcheddol**

113. Nodaf fod y ceisydd wedi cadarnhau bod yr holl ofynion cyfreithiol wedi'u bodloni wrth baratoi'r cais, y Datganiad Amgylcheddol ac wrth ymgynghori arno. Rwy'n fodlon bod y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. (IR 989-993)

114. Rwy'n fodlon bod yr wybodaeth amgylcheddol a ddarperir yn y Datganiad Amgylcheddol a'r Wybodaeth Amgylcheddol Bellach yn ddigonol er mwyn gallu asesu effeithiau amgylcheddol y cynllun. Cadarnhaf fy mod wedi cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraffau (a) i (c) o adran 14(3A) o'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd wrth ystyried y Datganiad Amgylcheddol.

**Y Gorchymyn**

115. Mae’r Arolygydd yn nodi’i ddealltwriaeth nad oes unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn erbyn hyn, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â Chaffaeliad Gorfodol. (IR 994-995)

**Rhwymedigaethau Cynllunio**

116. Cytunaf na all y cytundeb cyfreithiol drafft heb ei weithredu rhwng y ceisydd a'r ACLl, a ddyluniwyd er mwyn helpu i wrthbwyso'r effeithiau ar y morwedd a'r dirwedd, gael ei ystyried wrth benderfynu ar y Gorchymyn. Fodd bynnag, rwy'n fodlon y gallai'r mesurau cydbwyso angenrheidiol y cytunwyd arnynt rhwng y ceisydd a'r ACLl gael eu rhoi ar waith drwy amod a argymhellir 22 fel y nodir yn Atodiad 1 yr IR. Fodd bynnag, nodaf sylwadau’r ACLl mewn ymateb i’m llythyr ar 22 Hydref ac rwy’n mynd i’r afael ag amod 22 ymhellach isod.

**Caniatâd Cynllunio Tybiedig ac Amodau Cynllunio**

117. Mae Atodiad 1 o'r IR yn nodi'r amodau y mae'r Arolygydd yn argymell y dylid eu hatodi i'r caniatâd cynllunio tybiedig.

118. Esbonnir yn fy llythyr dyddiedig 22 Hydref rwyf wedi dileu'r paragraff cyntaf o amod 2 gan nad oes ei angen ac mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys darpariaethau i fynd i'r afael â diwygiadau i ganiatadau cynllunio. Nid wyf wedi cynnwys amod a argymhellir 12 gan nad oes ei angen yn fy marn i. Mae'r wybodaeth ofynnol am rywogaethau gwarchodedig wedi'i chyflwyno ac mae'r effaith ar rywogaethau gwarchodedig wedi'i hystyried drwy'r Datganiad Amgylcheddol a'r broses gwneud penderfyniadau.

119. Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 22 Hydref, cyflwynodd yr ymgeisydd newidiadau pellach a awgrymwyd i'r amodau, y mae'n nodi, sydd wedi'u cytuno â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r ACLl. Cyflwynodd yr ACLl yr un rhestr o amodau diwygiedig a chadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i amodau sy'n ymwneud ag iawndal tirwedd a chynefin.

120. Rwyf wedi ystyried y diwygiadau arfaethedig i'r amodau ac yn fodlon nad yw'r rheolaethau a geisir gan yr amodau sydd ynghlwm wrth y llythyr dyddiedig 22 Hydref yn cael eu heffeithio ac, yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau, mae'r diwygiadau arfaethedig i'r amodau yn bodloni'r profion perthnasol yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru. 016/2014 “Defnyddio Amodau Cynllunio i Rheoli Datblygu”.

121. Disgrifir y diwygiadau i'r amodau isod.

122. Mae amod 11 yn y llythyr ‘dymuno i’ yn cyfeirio at ddarparu iawndal cynefin os bydd ceblau allforio yn cael eu gosod i fyny wyneb y clogwyn. Mae'r diwygiad arfaethedig i amod 11 (sydd bellach wedi'i rifo'n amod 12) yn adlewyrchu'r ffaith y bydd angen iawndal oherwydd y ceblau allforio sy'n arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardal Gadwraeth Arbennig Arfordir yr Ynys Sanctaidd dim ond os yw'r ceblau'n cael eu cyfeirio i fyny'r wyneb clogwyn.

123. Am resymau tebyg, mae'r cyfeiriad at fesurau gwella bioamrywiaeth yn ‘Abraham’s Bosom’ yn amod 7 (sydd bellach wedi’i rifo’n amod rhif 8) wedi'i ddileu ac wedi'i ymgorffori yn amod 5 (sydd bellach wedi'i rifo'n amod rhif 6) i sicrhau bod unrhyw gynllun rheoli tirwedd wedi'i ddiweddaru, sy'n ofynnol yn y digwyddiad bod ceblau yn cael eu cyfeirio i fyny wyneb y clogwyn, yn ystyried y cynllun ar gyfer iawndal cynefin a sicrhawyd trwy amod 12.

124. Mae amod 3 newydd yn amod fesul cyfnod ac mae'n galluogi gynllun cyflwyno fesul cam gael ei gyflwyno i a'i gymeradwyo gan yr ACLl cyn i'r datblygiad ddigwydd, mae hyn er mwyn hwyluso dull graddol o'r prosiect a sicrhau bod y manylion angenrheidiol yn cael eu rhyddhau ar gyfer cyfnodau penodol. Mae mân ddiwygiadau i amodau 11 a 13 er mwyn hwyluso rhyddhau fesul cam.

125. Mae amod 22 (sydd bellach wedi'i rifo’n amod 23) wedi'i ddiwygio, mewn ymateb i sylwadau gan yr ACLl, er mwyn egluro cwmpas y cynllun iawndal tirwedd y mae'n ofynnol ei gyflwyno a'i gymeradwyo cyn i unrhyw ddatblygiad ddigwydd.

126. Mae'r diwygiadau i amodau 15, 16, 18 - 21 (sydd bellach wedi'u rhifo’n amodau 16, 17 a 19-22) yn dileu cyfeiriadau at amserlenni ar gyfer cyflwyno manylion i'r ACLl. Rhaid cyflwyno'r manylion i'r ACLl cyn dechrau'r datblygiad ac, felly, mae'r rheolaeth a arferir gan yr amodau yn parhau.

127. Mae'r amodau sydd ynghlwm i’r caniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer y cynllun wedi'u nodi yn Atodiad A y llythyr hwn.

**Cydbwysedd Cynllunio**

128. Mae'r Arolygydd yn nodi'r cydbwysedd cynllunio yn IR 1008-1011. O ran anfanteision y cynllun, cytunaf y byddai effeithiau sylweddol ar gymeriad a golwg y lleoliad. Ni fyddai lleoliadau nifer o asedau treftadaeth yn cael eu cynnal ychwaith, a byddai effaith andwyol ar harddwch naturiol yr AHNE. Sylwaf for PCC yn gofyn am roi pwys mawr ar warchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE. Mae'r Arolygydd o'r farn y gallai rhywfaint o fywyd gwyllt gael ei golli o fewn y Parth ac o'i amgylch. Fodd bynnag, pe bai hyn yn digwydd, ni ddangoswyd y byddai hynny'n annerbyniol a rhaid iddo gael ei gydbwyso yn erbyn manteision y cynllun.

129. O ran manteision y cynllun, cytunaf y byddai'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy gynorthwyo gyda'r broses o ddatgarboneiddio cyflenwadau ynni, helpu i ddatblygu'r sector ynni ffrwd lanw a diwydiannau ategol, ac arallgyfeirio economi Ynys Môn, ei gwneud yn fwy cydnerth a chreu swyddi ar yr Ynys.

130. Cytunaf â'r casgliadau a nodir yn IR 1012-1023 ac rwy'n fodlon bod y materion y nodwyd eu bod yn cefnogi'r cynnig, pan gânt eu pwyso yn erbyn effeithiau posibl y gwaith, yn darparu achos clir ac argyhoeddiadol dros wneud y Gorchymyn, yn amodol ar y diwygiadau a nodwyd gan yr Arolygydd.

**Caffael Gorfodol**

131. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried y gofynion statudol a pholisi perthnasol sy'n berthnasol i gaffael gorfodol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gaffael gorfodol wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr 003/2019 Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down' (Fersiwn Cymru, 2020) ("Cylchlythyr 003/2019"). (IR 1029-1030)

132. Mae paragraff 10 o Gylchlythyr 003/2019 yn cadarnhau y gellir defnyddio pwerau prynu gorfodol i gaffael tir, a hawliau dros dir, pan ellir dangos achos cymhellol er budd y cyhoedd sy'n drech na cholli buddiannau preifat. (IR 1031)

133. Nodaf fod dau wrthwynebydd i'r cynllun o hyd, sef Conygar Investment Company plc/Horizon Nuclear Power Wylfa Limited, ac Orthios Eco Parks (Anglesey) Limited ac Orthios Power (Anglesey) Limited – y'u gelwir ar y cyd yn Orthios. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi rhoi sylw dyledus i'r gwrthwynebiadau.

*Conygar Investment Company plc/Horizon Nuclear Power Wylfa Limited*

134. Nodaf y tir sydd ei angen ar gyfer llwybr arfaethedig y ceblau i'r is-orsaf sy'n cysylltu â'r grid. Rwy'n fodlon â barn yr Arolygydd nad oes unrhyw dystiolaeth y byddai coridor arfaethedig y ceisydd ar gyfer y ceblau, drwy Blot 39, yn rhwystro gweddill safle Conygar rhag cael ei ddatblygu. (IR 1041)

*Orthios*

135. Mae'r Arolygydd yn egluro mai Orthios sy'n berchen ar y tir sy'n cynnwys y ddau gebl 132kv sy'n darparu pŵer i hen waith Alwminiwm Môn. Hoffai'r ceisydd gaffael tir Orthios er mwyn hwyluso cysylltiad â'r ceblau 132kv ac, felly â'r Grid Cenedlaethol. (IR 1042)

136. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi ystyried ac wedi rhoi sylw dyledus i wrthwynebiadau Orthios (IR 1043-1068). Derbyniaf gasgliad yr Arolygydd y byddai plotiau Orthios, o bosibl, yn hollbwysig i'r broses o gyflawni'r gwaith a'r manteision a fyddai'n deillio ohono ac, er eu bod yn ceisio diogelu eu buddiannau eu hunain ar y safle, yn absenoldeb y caffaeliad gorfodol arfaethedig, y byddai'r "Opsiynau" a gynigiwyd ganddynt yn peri risg sylweddol i'r gwaith. Ymddengys y byddai'r risg honno yn fwy o lawer na'r risg yng nghynnig y ceisydd. (IR 1073)

<u>Casgliad ar Gaffael Gorfodol</u>

137. Nodaf fod yr angen am gaffael gorfodol yn cael ei ddisgrifio a'i ystyried yn IR 1035. Derbyniaf ganfyddiadau'r Arolygydd bod manylion cyllid wedi'u darparu gan y ceisydd ac, er y byddai disgwyl i benderfyniadau cyllid terfynol gael eu gwneud ar ôl gwneud y Gorchymyn, mae'n debygol iawn y byddai cyllid yn parhau i fod ar gael ar gyfer y cynllun, ac y byddai'r cyllid hwnnw'n ddigonol i gyflawni'r prosiect a chaffael y tir a'r hawliau a geisir. (IR 1038-1040)

138. Rwy'n fodlon bod angen caffael y tir a'r hawliau y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn er mwyn rhoi'r prosiect ar waith, ac y byddai'r tir a gymerir yn unol â'r hyn a ddisgwylir ar gyfer y math hwn o brosiect seilwaith. (IR 1074)

139. Rwy'n fodlon bod yr Arolygydd wedi mynd i'r afael â'r holl dystiolaeth sy'n ymwneud â chaffael gorfodol ac rwy'n fodlon â'r casgliad rhesymedig bod angen clir ac achos cymhellol dros gaffael gorfodol yn y Gorchymyn, er budd y cyhoedd. (IR 1075)

140. Nodaf fod y ceisydd wedi darparu Ymgymeriad Unochrog mewn perthynas â'r ffordd fynediad ym mhlotiau 48 a 51, sy'n mynd i'r afael â defnydd ac argaeledd ffordd fynediad i safle Orthios yn ystod y gwaith o adeiladu'r is-orsaf arfaethedig a fydd yn cysylltu â'r grid ac ar ôl hynny, ynghyd â diogelwch a mesurau cydbwyso, ymhlith pethau eraill. Mae'r Arolygydd yn nodi bod Orthios wedi derbyn bod yr Ymgymeriad Unochrog yn darparu'r darpariaethau amddiffynnol y byddai cais wedi'i wneud ar eu cyfer fel arall. (IR 1066)

**Casgliadau cyffredinol**

141. Am y rhesymau a eglurir yn y llythyr hwn, cytunaf â'r Arolygydd fod achos cymhellol dros wneud Gorchymyn Parth Arddangos Morlais. Rwy'n fodlon bod y dystiolaeth yn dangos bod y ceisydd wedi ystyried dulliau amgen realistig ac, o ran y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 19989, y byddai manteision y cynllun yn cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth o ran buddiannau a ddiogelir fel arall gan hawliau'r Confensiwn.

<u>Deddf 2015</u>

142. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol â Deddf 2015, gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy. Wrth ddod i'm penderfyniad ar y cais, rwyf wedi ystyried y ffordd o weithio a nodir yn adran 5(2) o Ddeddf 2015 a 'SPSF1 Canllaw Craidd, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Nodir fy asesiad yn erbyn pob ffordd o weithio isod.

<u>*Edrych i'r hirdymor*</u>

143. Mae'r penderfyniad yn ystyried manteision hirdymor datblygu a threialu dyfeisiau ynni llanw, sef ynni adnewyddadwy a fyddai'n cefnogi amcanion datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Byddai'r prosiect, a fydd yn weithredol am fwy na 30 mlynedd, yn sicrhau'r manteision hyn dros gyfnod hir.

<u>*Mabwysiadu dull integredig*</u>

144. Rwyf wedi ystyried effeithiau'r cynnig datblygu ar amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y nodau llesiant a nodwyd yn adran 4 o Ddeddf 2015. Lle na chaiff amcan ei nodi, mae effaith y penderfyniad hwn yn niwtral.

*Effaith ar amcanion llesiant*

- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl – effaith gadarnhaol.
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt – effaith gadarnhaol hirdymor drwy ddatblygu ynni llanw a'r lleihad dilynol mewn allyriadau carbon.
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn – effaith gadarnhaol.

*Cynnwys pobl/Cydweithio ag eraill*

145. O fewn fframwaith proses gwneud penderfyniadau statudol, a reolir gan weithdrefnau rhagnodedig, roedd y cais yn destun cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, a roddodd gyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gymryd rhan. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd drwy'r gweithdrefnau hyn wedi cael eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar y cais hwn.

*Atal*

146. Mae'r penderfyniad yn rhoi cyfle i ddechrau gweithio ar gynllun y cydsyniwyd iddo, a fyddai'n datblygu ac yn treialu dyfeisiau ynni llanw, sy'n ffynhonnell ynni adnewyddadwy. Byddai'r cynllun yn cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector ynni. Byddai'r gwaith datblygu yn helpu i gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar adeiladu economi gryfach a gwyrddach a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

147. Ystyriaf fod fy mhenderfyniad yn gydnaws â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf 2015. Nid yw'r penderfyniad yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, pe bai'r cais yn cael ei wrthod, ni fyddem yn gweld y manteision o ran cyfrannu at economi gryfach a gwyrddach ac ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. Felly, ystyriaf fod y penderfyniad yn gam rhesymol tuag at gyflawni amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

Cyflawni'r Gorchymyn drwy ddulliau eraill

148. Mae Adran 13(2) o'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i beidio â gwneud Gorchymyn lle yr ystyrir y gallai unrhyw un o wrthrychau'r Gorchymyn y gwneir cais amdano gael ei gyflawni drwy ddulliau eraill. Rwyf wedi ystyried yr elfennau ar y tir ac ar y môr yn eu cyfanrwydd a dôf i'r casgliad na all unrhyw ddeddfiad arall o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru gyflawni gwrthrychau'r Gorchymyn yn ogystal â chaffael gorfodol drwy un broses. Yn unol â hynny, nid wyf yn bwriadu defnyddio pwerau o dan Adran 13(2) o'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

**Penderfyniad Gweinidogion Cymru**

149. Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'm llythyr dyddiedig 22 Hydref 2021, credaf o hyd fod achos cymhellol dros awdurdodi'r cynllun, am y rhesymau a roddir yn y llythyr hwn. Felly, rwyf wedi penderfynu gwneud y Gorchymyn, yn amodol ar yr addasiadau a ddisgrifir ym mharagraffau 10 a 15 o'r llythyr hwn a mân ddiwygiadau drafftio amrywiol eraill na fyddai'n effeithio ar sylwedd y Gorchymyn, a chyfarwyddo bod caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer y datblygiad y mae'r Gorchymyn yn darparu ar ei gyfer, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

**Hysbysiad o dan adran 14 o'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd**

150. Y llythyr hwn yw hysbysiad penderfynu Gweinidogion Cymru i wneud y Gorchymyn, gydag addasiadau, at ddibenion adran 14(1)(a) ac adran 14(2) o'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd. Mae'n ofynnol i'r ceisydd gyhoeddi hysbysiadau o'r penderfyniad mewn papurau newydd yn unol ag adran 14(4) o'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

**Herio penderfyniadau**

151. Nodir yr amgylchiadau lle y gellir herio penderfyniad Gweinidogion Cymru yn y nodyn yn Atodiad 2 i'r llythyr hwn.

**Dosbarthu**

152. Mae copïau o'r llythyr hwn yn cael eu hanfon at y rhai a ymddangosodd yn yr ymchwiliad a phob person a gyflwynodd sylwadau i'r ymchwiliad ond nad ymddangosodd ynddo.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**ATODIAD 1**

**Amodau Cynllunio sydd Ynghlwm wrth y Caniatâd Cynllunio Tybiedig**

**Cyffredinol**

1) Bydd y gwaith datblygu a ganiateir drwy hyn yn dechrau cyn pen 5 mlynedd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym.

*Rheswm: I gydymffurfio ag Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.*

2) Caiff y gwaith datblygu ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau cymeradwy canlynol, onis cymeradwyir fel arall o dan amod 6:

Cyf Darlun 70061106-001 Diw P01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun o Leoliad y Safle – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-002 Diw P01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Dangosol o'r Safle – Is-orsaf ar y Lan – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-003 Diw P01 – Cynllun Dangosol o'r Safle – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Dangosol o'r Safle – Adeilad Offer Switsio – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-004 Diw P01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 – Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Dangosol o'r Safle – Is-orsaf sy'n Cysylltu â'r Grid – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-005 Diw P01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Presennol o'r Safle – Is-orsaf ar y Lan – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-006 Diw P01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Presennol o'r Safe – Adeilad Offer Switsio Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-007 Diw P01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Presennol o'r Safle – Is-orsaf sy'n Cysylltu â'r Grid – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-008 Diw 01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Trefniant Cyffredinol – Is-orsaf ar y Lan – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-009 Diw 01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Trefniant Cyffredinol – Adeilad Offer Switsio – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-010 Diw 02 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Trefniant Cyffredinol – Is-orsaf sy'n Cysylltu â'r Grid – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-011 Diw 01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992

Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Gweddluniau – Ynys Môn

Cyf Darlun 70061106-012 Diw 01 – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Gweddluniau – Ynys Môn

*Rheswm: I sicrhau bod y gwaith datblygu yn cael ei gyflawni yn unol â'r dogfennau, y cynlluniau a'r lluniadau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r Gorchymyn.*

3) Gellir cyflwyno'r manylion y mae'n ofynnol eu cyflwyno a'u cymeradwyo yn unol ag amodau 5, 8, 9, 10, 14 a 15 fesul cam yn unol a Chynllun Fesul Cyfnod sydd wedi'i gyflwyno i a'i gymeradwyo gan yr ACLl a

(a) ni fydd unrhyw waith adeiladu cam o'r datblygiad yn cychwyn oni bai a hyd nes y bydd y manylion sy'n ofynnol gan amodau 5, 8, 9, 10, 14 a 15 wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr ACLl; a

(b) rhaid adeiladu a gweithredu unrhyw gam o'r fath yn unol â'r manylion fel y'u cymeradwywyd.

Ni chaiff y Cynllun Fesul Cyfnod ei ddiwygio heb gydsyniad ysgrifenedig yr ACLl.

*Rheswm: Sicrhau bod camau'r datblygiad yn cael eu cyflawni yn unol â manylion sy'n briodol i'r cam perthnasol.*

**Cymeradwyo Cynlluniau Lliniaru Adeiladu a'u Rhoi ar Waith**

4) Cyn dechrau ar unrhyw gam o'r gwaith datblygu, caiff Cod Ymarfer Adeiladu ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo ar gyfer y cam hwnnw. Bydd unrhyw God Ymarfer Adeiladu yn cynnwys:

a) Y maes a'r gwaith sy'n berthnasol i'r Cod Ymarfer Adeiladu;
b) Datganiadau o Ddull Adeiladu sy'n berthnasol i'r cam datblygu.

Os yw'n berthnasol i'r cam datblygu, caiff y canlynol ei gynnwys yn y Cod Ymarfer Adeiladu ar gyfer y cam hwnnw:

c) Cynllun draenio dŵr wyneb
d) Cynllun Rheoli Sŵn Adeiladu
e) Cynllun Rheoli Ansawdd Aer Adeiladu
f) Cynllun Rheoli Gwastraff Safle a Gwastraff Cloddiedig
g) Cynllun Adfer Cynefin
h) Cynllun Rheoli Rhywogaethau Ymledol ar y Tir
i) Cynllun Gweithredu Ecolegol
j) Manylion gwaith stryd, gan gynnwys:
    (i) amseriad(au) gwaith a'r dyddiad y disgwylir iddo gael ei gwblhau
    (ii) cynigion rheoli traffig ac arwyddion traffig
    (iii) manylion adfer stryd gan gynnwys materion fel lled a graddau gwaith arwynebu a marciau stryd.

Caiff pob cam o'r gwaith datblygu ei gyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Adeiladu cymeradwy perthnasol.

*Rheswm: I gydymffurfio â Pholisi ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

5) Cyn i'r gwaith datblygu ddechrau, caiff Cynllun Atal a Rheoli Llygredd ("PPMP")

ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y gwaith o adeiladu'r datblygiad ei gyflawni yn unol â'r PPMP cymeradwy.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

6) Ni chaiff unrhyw waith sy'n cynnwys gosod ceblau i fyny wyneb y clogwyn yn y man arfaethedig ar y lan ei gyflawni nes bod:

a) Adroddiad ysgrifenedig a lunnir gan beiriannydd annibynnol cymwys, sy'n dangos pam nad yw'n ymarferol i'r cyfryw geblau gael eu gosod drwy ddull drilio cyfeiriadol llorweddol neu dechneg arall heb ffos, wedi'i gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo ganddo;

b) Cod Ymarfer Adeiladu sy'n gysylltiedig â gwaith gosod allanol arfaethedig yn unol â gofynion amod 4) wedi'i gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo;

c) Cynllun rheoli tirwedd wedi'i ddiweddaru sy'n ymwneud â'r gwaith gosod allanol arfaethedig, gan gynnwys gwaith ychwanegol i ben y clogwyn yn Abraham's Bosom, os yw'n berthnasol, wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr ACLl. Rhaid i'r cynllun rheoli tirwedd wedi'i ddiweddaru gydymffurfio â'r gofynion yn amod 8, rhaid iddo ystyried y cynllun ar gyfer iawndal cynefinoedd a gymeradwywyd o dan amod 12 a rhoi sylw i unrhyw effeithiau cysylltiedig ar rinweddau arbennig Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn.

Caiff y gwaith ei gyflawni yn unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Dyluniad Manwl**

7) Ni fydd y gwaith o ddatblygu pob strwythur yn dechrau nes bod manylion cynllun, maint a golwg allanol y strwythur hwnnw wedi'u cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

Cyn dechrau ar y gwaith o adeiladu'r is-orsaf ar y lan, yr adeilad offer switsio a'r is-orsaf sy'n cysylltu â'r grid, caiff eu golwg allanol ac uchder pob adeilad uwchlaw lefel y ddaear eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

Mae'n rhaid i'r elfennau hyn fod o fewn y paramedrau a nodir yn Nhabl 1 ac ni fydd adeiladau 1, 2 a 3 yn yr is-orsaf ar y lan yn gorchuddio arwyneb o fwy na 1,739$m^2$ gyda'i gilydd.

Tabl 1 – Uchafswm Dimensiynau a Ganiateir ar gyfer Adeilad Ar y Tir

| Adeilad neu Strwythur | Uchafswm Uchder (m) | Uchafswm Hyd (m) | Uchafswm Lled (m) |
|---|---|---|---|
| Is-orsaf ar y lan – adeilad 1 | 7 | 62 | 22.5 |
| Is-orsaf ar y lan – adeilad 2 | 7 | 28 | 10 |
| Is-orsaf ar y lan – adeilad 3 | 7 | 8 | 8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adeilad Offer Switsio | 4 | 9.4 | 5 |
| Is-orsaf sy'n Cysylltu â'r Grid | 9 | 104 | 62 |

Caiff yr adeiladau a'r strwythurau eu hadeiladu yn unol â'r dyluniad cymeradwy.

*Rheswm: I sicrhau na fydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr ardal.*

8) Cyn i'r gwaith o adeiladu'r datblygiad ddechrau, caiff manylion gwaith tirlunio caled a meddal eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

Bydd hyn yn gynnwys:

a) Manylion tirwedd galed gan gynnwys manylion ffiniau, dulliau amgáu ac ardaloedd arwyneb caled gan gynnwys deunyddiau;

b) Manylion tirwedd feddal gan gynnwys cynlluniau plannu, manylebau ysgrifenedig gan gynnwys dyfnder pridd, dulliau amaethu sy'n gysylltiedig â sefydlu planhigion a glaswelltir ac amserlennu plannu sy'n nodi rhywogaethau, meintiau plannu a niferoedd a dwyseddau arfaethedig; a

d) Chynllun Rheoli Tirwedd terfynol.

Caiff y gwaith o adeiladu'r datblygiad ei gyflawni yn unol â'r manylion cymeradwy sy'n ymwneud â'r dirwedd.

*Rheswm: I sicrhau na fydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr ardal a'i fod yn cydymffurfio â Pholisi AMG 3 y Cynllun AHNE a Pholisi PCYFF4 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Adnoddau dŵr, y perygl o lifogydd a halogi**

9) Cyn dechrau'r gwaith adeiladu, caiff datganiad dull i leihau effeithiau croesfannau cwrs dŵr dros dro ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y gwaith o adeiladu'r datblygiad ei gyflawni yn unol â'r datganiad dull cymeradwy.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

10) Cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, caiff asesiad risg hydrodaearegol ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr asesiad risg hydrodaearegol hwn yn cynnwys asesiad risg manwl o effeithiau drilio cyfeiriadol llorweddol. Caiff y gwaith o adeiladu'r datblygiad ei gyflawni yn unol â'r asesiad risg cymeradwy.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 5 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

11) Yn ystod y gwaith datblygu, os canfyddir halogiad ar y safle na chafodd ei nodi'n flaenorol, ni chaiff rhagor o waith datblygu ei gyflawni ar y cam datblygu penodol hwnnw nes y caiff strategaeth adfer sy'n nodi sut yr eir i'r afael â'r halogiad hwn nas

amheuwyd ei chyflwyno i'r ACLl a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y strategaeth adfer ei chyflawni fel y'i cymeradwywyd.

*Rheswm: I sicrhau yr eir i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â halogiad blaenorol nas amheuwyd ar y safle drwy strategaeth adfer, er mwyn leihau'r risg i ddefnyddwyr y tir a thir cyfagos yn y dyfodol, a sicrhau y gall y gwaith datblygu fynd rhagddo heb risgiau annerbyniol.*

**Bioamrywiaeth**

12) Pan fydd gosod ceblau i fyny wyneb y clogwyn wrth y flanfa arfaethedig yn digwydd yn unol ag amod 6, ni chaiff unrhyw waith datblygu o’r fath ei gyflawni nes y caiff cynllun ar gyfer darparu cydbwyso cynefinoedd ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff cydbwyso cynefinoedd ei ddarparu yn unol â'r cynllun cymeradwy a'r amserlenni a nodir ynddo.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

13) Ni chaiff unrhyw ffosydd eu torri i osod ceblau tua'r tir o farc distyll cymedrig y gorllanw ar gyfer unrhyw gam datblygu heb fod methodoleg gosod fanwl yn cael ei chyflwyno i'r ACLl a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff unrhyw waith torri ffos tua'r tir o farc distyll cymedrig y gorllanw ei gyflawni yn unol â'r fethodoleg gosod gymeradwy hon.

*Rheswm: I gydymffurfio â'r amcanion morol lefel uchel yn y Datganiad Polisi Morol ac i leihau'r effeithiau ar gynefinoedd Atodiad I a nodir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.*

**Archaeoleg**

14) Cyn dechrau'r gwaith datblygu (gan gynnwys clirio safle, stripio pridd wyneb, ymchwiliadau tir neu waith tir arall), caiff Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer gwaith archaeolegol ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig yn cynnwys:

a) yr ymchwiliadau maes a'r fethodoleg recordio arfaethedig;

b) y rhaglen ôl-ymchwilio arfaethedig gan gynnwys;

(i) asesu,
(ii) dadansoddi,
(iii) adrodd,
(iv) cyhoeddi,
(v) lledaenu,
(vi) archifo.

c) amserlen ddyddiedig ar gyfer y gwaith archaeolegol arfaethedig.

Caiff y gwaith datblygu ei gyflawni yn unol â'r Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig cymeradwy.

*Rheswm: I sicrhau rhaglen lliniaru archaeolegol briodol yn unol â Pholisi AT 4 y Cynllun Datblygu Lleol, Polisi Cynllunio Cymru 10 (Rhagfyr 2018) a TAN24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.*

**Traffig a Thrafnidiaeth**

15) Cyn dechrau'r gwaith o adeiladu'r datblygiad, caiff Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys mesurau i reoli symudiadau cerbydau adeiladu yn ddiogel i ardaloedd adeiladu ac oddi yno, a mesurau i sicrhau mynediad i fusnesau a phreswylfeydd y bydd y penderfyniad i gau'r briffordd dros dro yn effeithio arnynt. Bydd y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu yn cynnwys:

a) Mesurau arfaethedig i reoli traffig adeiladu;
b) Manylion am sut yr eir i'r afael â'r camau adeiladu;
c) Manylion am lwybrau dargyfeirio ac arwyddion ymlaen llaw arfaethedig;
d) Manylion am y mesurau i reoli trefniadau mynediad ar gyfer preswylwyr lleol a thwristiaid;
e) Manylion am drefniadau parcio ar gyfer gweithwyr adeiladu;
f) Manylion mesurau i annog dulliau teithio cynaliadwy;
g) Manylion mesurau i hebrwng cerddwyr a beicwyr yn ystod y gwaith.

Caiff y gwaith o adeiladu'r datblygiad ei gyflawni yn unol â'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu cymeradwy.

*Rheswm: Er budd diogelwch ar y ffyrdd ac amwynder preswyl.*

**Y Gymraeg**

16) Caiff y strategaethau canlynol ar gyfer lliniaru'r effaith ar y Gymraeg, gwneud y gorau o'r Gymraeg a monitro'r defnydd ohoni eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ffurfiol ganddo:

a) Cyn y gwaith adeiladu, caiff y strategaethau hyn ar gyfer y cam adeiladu eu cyflwyno o'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo; ac

b) O leiaf chwe mis cyn i'r datblygiad ddechrau gweithredu, caiff y strategaethau hyn ar gyfer cam gweithredol y datblygiad eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

Mae'n rhaid i'r gwaith datblygu gael ei gyflawni yn unol â'r strategaethau cymeradwy, ac mae'n rhaid i'r datblygiad gael ei weithredu yn unol â nhw.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcanion SO1 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Twristiaeth a Hamdden**

17) Cyn dechrau'r gwaith o adeiladu'r datblygiad, caiff Strategaeth Monitro Twristiaeth a Hamdden ei chyflwyno i'r ACLl a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'n rhaid i'r gwaith datblygu gael ei gyflawni yn unol â'r strategaeth gymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd â Pholisi ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

18) Cyn dechrau'r gwaith o adeiladu'r datblygiad, caiff cynigion ar gyfer Strategaeth Hyrwyddo a Dehongli eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'n rhaid i'r gwaith datblygu gael ei gyflawni yn unol â'r strategaeth gymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO14 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Economeg Gymdeithasol**

19) Cyn dechrau'r gwaith o adeiladu'r datblygiad, caiff Cynllun Gweithredu Sgiliau a Hyfforddiant ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y gwaith datblygu ei gyflawni yn unol â'r cynllun cymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO11 y Cynllun Datblygu Lleol.*

20) Cyn dechrau'r gwaith o adeiladu'r datblygiad, caiff cynigion ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Hyfforddiant eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'n rhaid i'r gwaith datblygu gael ei gyflawni yn unol â'r cynigion cymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO11 y Cynllun Datblygu Lleol.*

21) Cyn dechrau'r gwaith o adeiladu'r datblygiad, caiff Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'n rhaid i'r gwaith datblygu gael ei gyflawni yn unol â'r cynllun cymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO12 y Cynllun Datblygu Lleol.*

22) Cyn dechrau'r gwaith o adeiladu'r datblygiad, caiff Strategaeth ar gyfer Lletya Gweithwyr nad ydynt yn Breswylwyr ei chyflwyno i'r ACLl a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'n rhaid i'r gwaith datblygu gael ei gyflawni yn unol â'r strategaeth gymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO12 y Cynllun Lleol.*

23) Ni chaiff unrhyw waith datblygu ei gyflawni nes y caiff cynllun ar gyfer darparu cydbwyso tirwedd ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun yn nodi mesurau priodol i cydbwyso effaith y datblygiad ar ardaloedd cymeriad y dirwedd a'r morlun a nodwyd ym mhennod 24 o'r Datganiad Amgylcheddol (Cyfluniad Tirwedd, Tirwedd ac Effaith Weledol Cyfrol 1) dyddiedig Gorffennaf 2019 fel sy'n debygol o brofi effeithiau sylweddol o ganlyniad i'r Datblygiad ar ôl lliniaru (fel y crynhoir yn nhabl 24-19 pennod 24 o'r Datganiad Amgylcheddol). Caiff y gwaith cydbwyso tirwedd ei ddarparu yn unol â'r cynllun cymeradwy a'r amserlenni a nodir ynddo.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Gweithrediadau**

24) Cyn i'r datblygiad gael ei roi ar waith, caiff Cynllun Rheoli Gweithredol ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun hwn yn nodi'r mesurau ar gyfer rheoli seilwaith prosiect a gweithrediadau cynnal a chadw uwchlaw'r wyneb yn ddiogel ar dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Bydd yn cynnwys:

a) Manylion mesurau i atal mynediad anniogel i'r cyhoedd i seilwaith uwchlaw lefel y ddaear
b) Manylion y mesurau cynnal a chadw y mae'n debygol y bydd eu hangen, ac amcan o'u hyd a'u hamseriadau

c) Cyhyd ag y bo'n ymarferol, manylion mesurau i leihau ymyrraeth â mynediad cyhoeddus a manylion am sut y caiff diogelwch y cyhoedd ei gynnal yn ystod y gweithrediadau cynnal a chadw
d) Manylion sut y caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol wybod am weithrediadau cynnal a chadw ymlaen llaw
e) Manylion sut y caiff mesurau cynnal a chadw brys eu rheoli.

*Rheswm: Er budd diogelwch y cyhoedd*

**Dadgomisiynu**

25) O fewn tri mis i ddiwedd gweithrediadau masnachol prosiect ynni'r llanw ar y môr Morlais, ac o leiaf chwe mis cyn i unrhyw waith dadgomisiynu ar y tir ddechrau, rhaid i gynllun dadgomisiynu ysgrifenedig gael ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun dadgomisiynu ysgrifenedig yn cynnwys Cod Ymarfer Adeiladu, a rhaid i'r cynllun cymeradwyo gael ei roi ar waith fel y'i cymeradwywyd wrth gyflawni unrhyw waith dadgomisiynu neu ran berthnasol ohono.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 5 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol*

**Nodiadau ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio tybiedig**

1) Pan fydd unrhyw waith yn effeithio, yn gofyn am fynediad i, neu’n cynnwys groesi gefnffordd, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd:

- Cael trwydded neu awdurdodiad perthnasol i gyflawni'r gwaith hwnnw o dan Ddeddf Priffyrdd 1980; a
- Cydymffurfio â'r gofynion perthnasol yn y Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd.

Mewn achosion o'r fath, cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu ag Is-adran Priffyrdd Llywodraeth Cymru i drafod gofynion cyflwyno.

## ATODIAD 2

## HAWL I HERIO GORCHMYNION A WNEIR O DAN Y DDEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD

Gall unrhyw berson sydd wedi cael ei dramgwyddo gan y Gorchymyn a wneir o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd herio ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddo, ar y sail:

- nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, neu
- nad oes cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion a osodwyd gan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd neu Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 neu oddi tanynt.

Gall unrhyw gyfryw her gael ei gwneud, drwy gais i'r Uchel Lys, o fewn cyfnod o 42 diwrnod o'r diwrnod y caiff yr hysbysiad penderfynu ei gyhoeddi yn y London Gazette fel sy'n ofynnol gan adran 14(1)(b) o'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

## HERIAU I GANIATÂD CYNLLUNIO TYBIEDIG A RODDIR MEWN CYSYLLTIAD â GORCHYMYN A WNEIR O DAN Y DDEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD

Nid oes unrhyw hawl statudol i herio dilysrwydd cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru y tybir y caiff caniatâd cynllunio ei roi ar gyfer datblygiad y mae darpariaeth ar ei gyfer wedi'i chynnwys mewn Gorchymyn a wneir o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd. Fodd bynnag, gall unrhyw berson sydd wedi cael ei dramgwyddo gan y cyfarwyddyd a roddir geisio caniatâd yr Uchel Lys i herio'r penderfyniad drwy adolygiad barnwrol.

**Caiff person sy'n ystyried bod ganddo sail dros herio'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn neu'r penderfyniad i roi'r cyfarwyddyd o ran caniatâd cynllunio tybiedig ei gynghori i geisio cyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau.**